LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Llais Rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg Byw gyda Chanser



Ebrill 2024

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# CYNNWYS

Ynglŷn â Llais. ..........................................

Cefndir .................................................... **tudalen 4**

Yr hyn a wnaethom .................................. **tudalen 5-6**

Yr hyn a glywsom .................................... **tudalen 7-21**

Atborth ar gyfer arfer da ........................... **tudalen 22**

Diolchiadau ............................................. **tudalen 23-24**

Manylion cyswllt ....................................... **tudalen 24**

Atborth .................................................... **tudalen 24**

# CEFNDIR

Fel y Corff Llais y Dinesydd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Llais), mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd, fel y gallwn gyflawni ein rôl fel llais y claf a helpu i wella profiadau cleifion o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus, rydym yn targedu meysydd penodol er mwyn casglu atborth ar thema neu wasanaeth penodol. Ar yr achlysur hwn, rydym wedi penderfynu edrych ar Wasanaethau Canser, a chlywed gan bobl sydd wedi cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn ddiweddar, naill ai ar ôl cael diagnosis diweddar neu'n mynd drwy driniaeth ar hyn o bryd.

## Canolfan Ganser Felindre (CGF)

Mae CGF yn "darparu gwasnaethau canser a gwaed arbenigol ar draws De a Chanolbarth Cymru, trwy Ganolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru". Er bod Canolfan Ganser Felindre wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, gall cleifion ddod o wahanol rannau o Gymru i gael y gofal sydd ei angen arnynt. Felly, gall yr atborth a gawn ddod oddi wrth bobl sy'n byw y tu allan i ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Os byddwn yn cael unrhyw atborth o ardaloedd eraill, byddwn yn ei rannu gyda'n swyddfeydd Llais rhanbarthol perthnasol.




Bydd ysbyty newydd yn cael ei adeiladu ar safle Dolau'r Gogledd yn Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Er bod hwn yn gam positif ymlaen ar gyfer gwasanaethau canser i ddefnyddwyr gwasanaethau ac o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, rydym hefyd yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ymhlith y gymuned leol ynghylch lleoliad y safle newydd. Felly, rydym am wneud rhywfaint o waith ymgysylltu ynghylch hyn hefyd.

# YR HYN A WNAETHOM

Ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd Llais 3 ymweliad â gwasanaethau canser a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yng Nghanolfan Ganser Felindre (CGF).  Ein nod oedd deall i ba raddau yr oedd y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion cleifion a defnyddiwyr gwasanaethau.

**Ymweliadau â Gwasanaethau Canser**

Fe wnaethom ymweld â'r gwasanaethau canser canlynol:

| Lleoliad yr Ymweliad | Dyddiad yr Ymweliad |
|---|---|
| Uned Treialon Clinigol, CGF | 16/02/2024 |
| Adran Cleifion Allanol, CGF | 19/02/2024 |
| Ward Llawr Cyntaf, CGF | 19/02/2024 |

Yn ystod yr ymweliadau, bu ein gwirfoddolwyr yn siarad â chleifion, ac yn arsylwi ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth.

Rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth a dderbyniwyd trwy fecanweithiau atborth eraill y mae Llais yn eu defnyddio, megis ein posteri sy'n cael eu harddangos o amgylch safleoedd ysbytai, gan gynnwys Canolfan Ganser Felindre.  Rydym hefyd yn derbyn atborth cyffredinol trwy e-byst a galwadau ffôn i swyddfa Llais.  Gellir derbyn yr atborth hwn cyn cynnal unrhyw ymweliad Llais, a'i gynnwys fel rhan o wybodaeth a phapurau briffio a roddir i wirfoddolwyr.

Yn yr Adroddiad, rydym wedi amlygu unrhyw ganmoliaeth a phryderon cyffredin a godwyd, a chynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliant sy'n berthnasol i'r gwasanaeth cyfan.

**Rhwydweithio**

Ochr yn ochr â’n gweithgareddau ymweld, fe wnaethom fanteisio hefyd ar y cyfle i rwydweithio â nifer o wahanol sefydliadau a chydweithwyr yn y GIG ynghylch mynediad at wasanaethau canser, yn ogystal â chlywed am y gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.  Buom yn ymgysylltu â’r cydweithwyr a’r sefydliadau canlynol;

- Canolfan Maggie’s, Caerdydd
- Macmillan
- Pennaeth Profiad y Claf Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre



# YR HYN A GLYWSOM

## Staff a Gwasanaethau

Ni waeth pa ardal yr ymwelodd gwirfoddolwyr â hi yng Nghanolfan Ganser Felindre, roedd mwyafrif helaeth y cleifion a pherthnasau y siaradwyd â nhw yn canmol y gwasanaethau a ddarparwyd ar eu cyfer yn fawr.  Pan ofynnwyd iddynt egluro eu canmoliaeth yn fanylach, roedd mwyafrif y sylwadau'n ymwneud â'r staff, eu hagwedd, a'u hymddygiad tuag at eu cleifion.

Yn ystod trafodaethau gyda gwirfoddolwyr, disgrifiodd nifer o gleifion y staff fel rhai 'siriol', 'cyfeillgar' a 'hawdd mynd atynt', gyda rhai'n dweud bod y staff yn ymddangos yn ddiffuant ac yn gofalu am eu cleifion.

Mae'r nyrsys yn wych, bendigedig (Uned Treialon Clinigol, CGF)

Mae'r staff mor hyfryd, maen nhw'n esbonio popeth yn dda ac yn ateb fy nghwestiynau i gyd, hyd yn oed os byddaf yn holi'r eildro (Uned Treialon Clinigol, CGF)

Mae'r staff yn hawdd iawn mynd atynt ac yn dangos empathi da (Ward Llawr Cyntaf, CGF)

Mae'r staff yn anhygoel (Ward Llawr Cyntaf)



Roedd ystod amrywiol o gefndiroedd y staff yn gwneud i bawb deimlo'n gartrefol (Ward Llawr Cyntaf)

Gall y sylwadau a godwyd gan gleifion gael eu hategu ymhellach gan atborth a dderbyniwyd trwy ein ffyrdd eraill o gasglu profiadau, megis galwadau ffôn i'r swyddfa, e-byst a ffurflenni atborth cyffredinol;

Mae'r Staff yn Felindre wedi bod o'r radd flaenaf. Cwblhawyd y driniaeth mewn amser rhesymol, ac roedd y staff yn gwrtais a phroffesiynol, gan ddangos sirioldeb a charedigrwydd.

Pan fydd staff yn hapus, gwyddwn y gall hyn roi hwb i forâl y tîm, a all wedyn gael effaith uniongyrchol ar y gofal a ddarperir i gleifion. Yn ogystal ag atborth a dderbyniwyd gan gleifion, bu modd i'r timau ymweld wylio'r gofal yn cael ei ddarparu i gleifion, ac roeddent am ategu'r sylwadau a wnaed;

Adroddodd y gwirfoddolwyr mai 'pleser pur' oedd gweld y berthynas rhwng staff, cleifion ac aelodau'r teulu (Uned Treialon Clinigol)

Roedd y tîm nyrsio'n ymddangos yn broffesiynol ac wedi ymrwymo i gyflawni eu dyletswyddau gyda gwir ofal a pharch tuag at y cleifion a'i gilydd (Uned Treialon Clinigol)

Roedd lefelau staffio'n dda, roedd morâl yn ymddangos yn uchel ac roedd y ward i weld yn cael ei harwain yn eithriadol o dda ac yn gefnogol. Roedd cleifion yn llawn canmoliaeth am nodweddion y ward, y llety, y bwyd a'r staff. Roeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt, y gwerthfawrogwyd eu hanghenion, a theimlent yn ddiogel (Ward Llawr Cyntaf, CGF)

I gleifion anffodus â chanser, rhaid ei bod yn hwb mawr i weld yr amgylchedd hwn a'r staff ymroddgar. (Adran Cleifion Allanol, CGF)

Gan fod staff yn hapus yn y gweithle, roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhyngweithio â chleifion, eu profiad cleifion, a'u profiad cyffredinol yn yr ysbyty (Ward Llawr Cyntaf)

Roedd staff cyfeillgar, siaradus ar ddesg y dderbynfa yn yr Adran Cleifion Allanol yn tawelu meddyliau pobl (Adran Cleifion Allanol)

Mae Llais yn falch iawn i weld yr atborth cadarnhaol ynghylch staff a'r gwasanaethau a ddarperir, ac yn gobeithio y bydd yr atborth hwn yn cael ei rannu â staff Canolfan Ganser Felindre.

## Gwybodaeth a Chyfathrebu

Er i ni glywed rhywfaint o atborth cymysg ynghylch gwybodaeth a chyfathrebu, roedd yr atborth cyffredinol ar y thema hon yn gadarnhaol. Yn ogystal â rhywfaint o'r atborth uchod a nodwyd, dywedodd llawer o gleifion eu bod yn teimlo y gwrandawyd arnynt ac y gallent gael atebion i'w cwestiynau.

Rhoddwyd taflen i'r claf yn dweud popeth wrtho am yr ysbyty a'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod ei arhosiad. (Ward Llawr Cyntaf)

Mae lefelau cyfathrebu ar draws yr ysbyty yn ardderchog (Ward Llawr Cyntaf)

Mae lefelau staffio yn dda iawn yn gyffredinol, a chaiff cyfathrebu ei flaenoriaethu'n gyson. Mae diwylliant cadarnhaol iawn yno, ac mae'r staff yn hapus ar y cyfan. (Ward Llawr Cyntaf)



Rhoddwyd canmoliaeth bellach gan y timau ymweld, lle'r oedd staff yn annog atborth gan gleifion yn dilyn eu profiad. Er enghraifft, yn yr Adran Cleifion Allanol, daeth y gwirfoddolwyr ar draws ardal a oedd yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau roi atborth i Ganolfan Ganser Felindre ac awgrymu pa welliannau y gellid eu gwneud. Roedd ymatebion i'r awgrymiadau a wnaed eisoes yn cael eu harddangos hefyd.

Gwelodd Tîm Ymweld Llais yn yr Adran Cleifion Allanol hefyd gleifion yn defnyddio'r 'llinell iaith' ar gyfer 'unrhyw un sy'n dymuno siarad mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg'.

Derbyniwyd rhai sylwadau lle'r oedd cleifion yn teimlo nad oedd unrhyw un yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu hanwybyddu ar adegau.



Cefais broblemau gydag apwyntiadau i ddechrau… Roeddwn wedi cyrraedd Felindre pan gefais wybod bod angen i mi fynd i ysbyty arall am driniaeth ar yr un diwrnod (Ward Llawr Cyntaf)

Hoffwn wybod mwy am fy nghyflwr a chael yr wybodaeth ddiweddaraf (Ward Llawr Cyntaf)

Roeddwn i'n teimlo'n ynysig ac wedi drysu ynglŷn â'r hyn oedd yn digwydd… roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy esgeuluso, ac yn llai pwysig na chleifion iau oherwydd fy mod yn hŷn (Ward Llawr Cyntaf)

Gwell cyfathrebu ynghylch apwyntiadau, mae triniaeth wedi bod yn broblem oherwydd diffyg cydlynu apwyntiadau ac ati. (Ward Llawr Cyntaf)

Yn cael problem gyda chyfathrebu ac rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi fynd ar drywydd hyn i wneud iddo weithio (Ward Llawr Cyntaf)

Dywedodd rhai pobl wrthym hefyd nad oedd cyfathrebu ysgrifenedig yn ddibynadwy bob amser.

Weithiau ni dderbynnir llythyrau apwyntiad neu maent yn cyrraedd yn hwyr (Adran Cleifion Allanol)



Fodd bynnag, roedd pryderon eraill a godwyd yn ymwneud â chyfathrebu â gwasanaethau gofal iechyd eraill, er enghraifft Meddygon Teulu neu ysbytai eraill.

Trafferth cael fy nhrosglwyddo (Ward Llawr Cyntaf)

Cefais broblem i ddechrau i gael fy MT i gymryd fy symptomau o ddifrif (Ward Llawr Cyntaf)

Bu oedi rhwng gweld y Meddyg Teulu a'r arbenigwr yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Roedd profion gyda'r MT yn araf ac rwy'n teimlo y gallent wedi bod yn gyflymach … Gwell cyfathrebu rhwng y MT a'r arbenigwr, a gwasanaeth cyflymach o ran cael canlyniadau profion.

Oherwydd yr atborth a dderbyniwyd ynghylch cyfathrebu yn gyffredinol, byddai hyn yn esbonio pam fod mwyafrif yr awgrymiadau ar gyfer gwelliant yn ymwneud â'r mater hwn.

O edrych ar yr wybodaeth uchod ynghylch cyfathrebu, mae'n amlwg ei bod yn ymddangos bod bwlch mewn cyfathrebu, nid yn unig rhwng cleifion a Felindre, ond rhwng cleifion a gwasanaethau eraill. Mae'n ymddangos y gallai fod rhwystrau cyfathrebu posib rhwng Felindre a gwasanaethau gofal iechyd eraill hefyd. Felly, byddai'n ddefnyddiol i

gleifion gael dealltwriaeth o sut mae Felindre yn cyfathrebu â gwasanaethau gofal iechyd eraill.

## Teithio a gofal iechyd lleol




Gan fod Llais yn ymwybodol bod pobl o bob rhan o Gymru yn mynychu Canolfan Ganser Felindre i gael y gofal arbenigol sydd ei angen arnynt, roeddem yn deall y byddai atborth ynglŷn â theithio.

Yn gyntaf, codwyd rhai pryderon yn ystod ein hymweliadau Llais, ynghylch parcio ar safle'r ysbyty.

> Mae parcio ar y safle yn broblem (Treialon Clinigol)

> Mae'r claf yn barod i aros yn y maes parcio am awr a hanner, yn hytrach na phoeni efallai na fydd yn cyrraedd mewn pryd ar gyfer ei apwyntiad, am ei fod yn gyrru o gwmpas yn chwilio am le i barcio. Mae hyn yn peri pryder i mi, gan nad yw'n dda i unrhyw glaf, heb sôn am glaf â chanser. (Atborth cyffredinol)


Mae Llais yn ymwybodol efallai na fydd rhai unigolion yn gallu gyrru, ac felly efallai bydd arnynt angen cymorth i gyrraedd yr ysbyty.  Yn ystod yr ymweliadau â Chanolfan Ganser Felindre, dywedwyd wrth y gwirfoddolwyr 'y darperir ffôn am ddim i ffonio tacsis, ynghyd â gwybodaeth am deithio a'r safle', yn ogystal â 'chaban at ddefnydd cleifion sy'n aros am gludiant gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC), nad ydynt yn dymuno aros yn y brif adran ar ôl eu hapwyntiad.'  Caiff ei staffio gan gynrychiolydd o YGAC.  Er bod y gwasanaeth hwn ar gael, dywedodd staff Felindre wrth Llais "efallai nad yw cleifion yn gwbl ymwybodol o gludiant YGAC sydd ar gael am ddim."

Fodd bynnag, cafodd y gwirfoddolwyr atborth nad yw gwasanaeth YGAC bob amser yn gyfforddus, yn enwedig ar ôl cael triniaeth.

Roedd claf wedi defnyddio'r cludiant a oedd ar gael ar gyfer ymweliadau blaenorol, ac roedd wedi cael siwrnai flinedig ac anghyfforddus. Dywedodd ei fod yn teimlo'n anhwylus, a chan fod yn rhaid i'r bws aros droeon fe gymerodd amser hir. (Treialon Clinigol)

Mae staff yn ymwybodol o'r problemau teithio sy'n effeithio ar rai cleifion, ac wedi gwrando ar eu sylwadau bod staff YGAC yn 'dda' a 'chynorthwyol', ond nad oedd yn ddelfrydol wrth deithio ar ôl cael triniaeth' (Treialon Clinigol)

Er nad CGF sy'n darparu'r gwasanaeth hwn, a'i fod yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru, byddai'n ddefnyddiol deall sut mae CGF yn rhannu'r atborth hwn gydag YGAC, fel eu bod yn ymwybodol o'r pryderon sy'n cael eu codi.



Roedd un o'r themâu mwyaf i ddod i'r amlwg yn ystod ein hymweliadau â Chanolfan Ganser Felindre yn ymwneud â gorfod teithio i Gaerdydd ar gyfer apwyntiadau, profion a/neu ganlyniadau.  Soniodd cleifion pe byddent yn gallu mynd at eu MT neu

ysbyty lleol ar gyfer yr apwyntiadau hyn, byddai'n cyfyngu ar eu hangen i deithio i Gaerdydd ar sawl achlysur.

Teithiais i o Orllewin Cymru, a oedd yn anodd i mi gan y bu'n rhaid i mi ddychwelyd ar gyfer apwyntiadau ar wahanol ddiwrnodau, ac roeddwn i'n teimlo y byddai'n well pe bai'r uned yn gallu gwneud mwy nag un prawf yn ystod un apwyntiad, ac felly cwtogi ar nifer y teithiau drud …mae'n ddrud iawn. Ond beth allaf i ei wneud, mae fy mywyd yn y fantol. (Treialon Clinigol)

Anodd iawn, os nad yn amhosib cael profion gwaed trwy'r MT, ac mae hyn yn creu problemau teithio. (Llawr Cyntaf)

Roedd pob claf wedi cael anhawster i gael profion gwaed yn eu cymuned, a oedd yn ofynnol cyn y gallent ddod i mewn am gemotherapi. (Ward Llawr Cyntaf)

Methu â chael prawf gwaed yn fy Meddygfa leol. Dywedwyd wrthyf am fynd i Went i gael profion, gan nad oedd rhai ysbytai'n gwneud profion gwaed ychwaith… Pe bai profion gwaed ar gael yn lleol byddai hynny wedi helpu gyda'r teithio. (Ward Llawr Cyntaf)



Gellir ategu'r wybodaeth hon ymhellach gan atborth cyffredinol a dderbyniwyd yn swyddfa Llais.

Nid cwyn yw hon, dim ond awgrym sut y gallech wella ychydig ar brofiadau cleifion canser. Bu'n rhaid i mi fynd i ganolfan ganser Caerdydd heddiw i gael fy mhrawf gwaed cyntaf. Dyna daith gron 80 milltir i mi, ac rwy'n dychmygu fod y daith yn bellach eto i rai pobl. Mae'r ystafell aros i gleifion allanol yn brysur iawn, ac mae'r profion yn rhedeg o leiaf 40 munud yn hwyr (cyrhaeddais i ddeg munud yn gynnar, ac rwyf wedi bod yma'n aros fy nhro am hanner can munud). Does dim byd arbenigol iawn, hyd y gwn i, am gymryd prawf gwaed. Oni allai cleifion fynd i'w Meddygfa neu ysbyty lleol hyd yn oed i gael y profion hyn?

- - Byddai'n lleihau'r pwysau ar wasanaeth Felindre, gan ei fod yn amlwg yn ei chael hi'n anodd ymdopi, am ei fod yn rhedeg yn hwyr.
- 
- - I mi, mae cael y prawf gwaed hwn yn mynd i gymryd y rhan fwyaf o'r dydd. Byddai'n fwy caredig i gleifion, efallai na fydd gan rai ohonynt lawer mwy o amser i fyw.
- 
- - Byddai'n well i'r amgylchedd, yn tawelu traffig ac yn lleihau costau petrol i gleifion. I mi, er enghraifft, byddaf wedi defnyddio 4 galwyn o betrol ar y daith gron.

Rwyf am bwysleisio nad wyf yn cwyno. Rwyf yn ddiolchgar tu hwnt fy mod yn cael triniaeth. Dim ond awgrym caredig a fyddai i'w weld yn helpu pawb.

Ni fyddai'n straen ar y MT hyd yn oed, gan mai nyrsys sy'n gwneud profion gwaed ac, fel arfer, fydda i mewn ac allan mewn 5 munud. Rydw i wedi bod yn aros awr erbyn hyn (o leiaf mae ysgrifennu hwn wedi helpu i basio'r amser).

Yn ystod un ymweliad, dywedodd aelod o staff wrth wirfoddolwr 'os yw'r MT ar gael i ymdopi â'r galw yn ei feddygfa, yna gellir


gwneud hynny heb unrhyw broblem.’ Fodd bynnag, o’r hyn y mae Llais wedi’i glywed, ac o ystyried nifer y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y mater hwn, mae’n amlwg bod problem bosib ynghylch sut mae gwahanol wasanaethau gofal iechyd yn gweithio gyda’i gilydd, fel bod cleifion yn dal i allu mynd at eu gwasanaethau gofal iechyd lleol, a dim ond pan fo angen gofal arbenigol y byddai’n rhaid teithio i Ganolfan Ganser Felindre.

## Yr Amgylchedd a Sylwadau

Roedd y sylwadau am yr amgylchedd a’r cyfleusterau sydd ar gael i gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. I’r rhai sy’n gorfod aros ar y Ward Llawr Cyntaf, dywedodd mwyafrif y cleifion fod “y cyfleusterau ffôn/wifi/teledu a radio yn dda”, yn ogystal â’r bwyd a diod oedd ar gael iddynt.

Bwyd a diod amrywiol a phoeth. Digonedd o ddŵr heb orfod gofyn amdano (Ward Llawr Cyntaf)

Mae’r bwyd yn amrywiol ac yn ffein… Rwyf wedi cael digonedd i’w yfed trwy gydol fy arhosiad, heb orfod mynd i ofyn amdano drwy’r amser. (Ward Llawr Cyntaf).





Er y canmolwyd y diodydd oedd ar gael ar y Ward Llawr Cyntaf, roedd ambell farn gymysg gan gleifion a gwirfoddolwyr wrth ymweld â'r Uned Treialon Clinigol a'r Adran Cleifion Allanol.

Mae'r caffi (yn yr Adran Cleifion Allanol) wedi bod ar gau ers Covid, a disgwylir iddo gael ei adnewyddu erbyn diwedd mis Mawrth.  Yn y cyfamser, gall unrhyw un sydd eisiau te/coffi ei gael am ddim gan beiriant dosbarthu. Mae digon o arwyddion ar gyfer y peiriant dosbarthu dŵr ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cael dŵr. (Adran Cleifion Allanol)

Mae'r botwm 'pwyso' ar y peiriant dosbarthu dŵr yn anodd ei ddefnyddio ac mae angen ei bwyso'n galed. (Treialon Clinigol)

Nid oedd y peiriannau te a choffi hunanwasanaeth yn gweithio.  Gwnaeth staff luniaeth yng nghegin yr Uned. (Uned Treialon Clinigol)



Er ei bod yn dda gweld opsiynau diod ar gael, a bod y staff yn hapus i ddarparu te a choffi i gleifion, mae pryder bod staff yn cael eu rhwystro rhag darparu gofal am fod y cyfleusterau presennol wedi torri.

## Atborth Arall a Dderbyniwyd

> Bu'n rhaid i mi gael fy nerbyn i'r ysbyty am nad oeddwn i'n hwylus. Roedd popeth yn barod pan gyrhaeddais i, gan gynnwys y gwely. (Ward Llawr Cyntaf)

> Rwy'n poeni pwy fydd yn cadw llygad arnaf ar ôl gorffen yma, a byddaf i gartref ar fy mhen fy hun. (Uned Treialon Clinigol)

## Rhwydweithio

Yn ogystal ag ymgymryd â gweithgareddau ymweld a chael atborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, roeddem am sicrhau'n wastadol ein bod yn clywed gan sefydliadau allweddol, ac am beth o'r gwaith yr oeddent yn ei wneud.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Mae Llais yn cyfarfod â chydweithwyr yng Nghanolfan Ganser Felindre yn rheolaidd, i sicrhau bod y ddau sefydliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddarnau perthnasol o waith, yn ogystal â rhannu unrhyw bryderon a all godi.  Ym mis Rhagfyr 2023, cyfarfu cydweithwyr Llais â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre, er mwyn gallu cynnal y trafodaethau allweddol hyn.

Mae Swyddog Rheoli Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Monitro a Chraffu lleol Llais hefyd yn cyfarfod â Phennaeth Ymgysylltu â Chleifion Felindre bob yn ail fis, er mwyn iddynt allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gilydd ar ba weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw yn yr ardal leol, ac i rannu atborth sydd wedi cyrraedd swyddfa Llais. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bu modd i Felindre allu rhannu gwybodaeth gyda Llais am nifer o wahanol ffyrdd y maent yn ymgysylltu'n rheolaidd â'u cymunedau, er enghraifft eu hymgysylltiad â Ffoaduriaid Wcráin ac ymgysylltu ag ysgolion. Cafwyd trafodaethau hefyd ynghylch gwaith yr oedd Felindre yn bwriadu ei wneud, megis datblygu'r fframwaith gwirfoddolwyr ac ailgyflwyno gwirfoddolwyr i gynorthwyo cleifion a staff, datblygu caffis canser newydd mewn cymunedau lleol, a fyddai'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr i ddarparu cymorth gan gymheiriaid, ac yn olaf datblygu eu Strategaeth Ymgysylltu Ieuenctid. Roedd Felindre yn hapus i rannu gwybodaeth bellach am y gweithgareddau hyn, yn y gobaith y gallai Llais gyfranogi yn rhai o'r cyfleoedd hyn, er mwyn clywed gan bobl sy'n byw gyda chanser.



Yn ogystal â chyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, rydym hefyd yn cael gohebiaeth reolaidd sy'n cael ei ddosbarthu ynghylch yr ysbyty canser newydd, y bwriedir ei adeiladu ar safle Dolau'r Gogledd, ger lle mae Canolfan

Ganser Felindre wedi'i lleoli.  O fewn peth o'r wybodaeth reolaidd a rennir ynghylch hyn, mae delweddau o sut fydd y safle a'r ysbyty newydd arfaethedig yn edrych, yn ogystal ag esboniad bod Felindre wedi ymrwymo i ddatblygu canolfan ganser newydd sy'n gynaliadwy ac yn ecogyfeillgar.

Rydym yn ymwybodol o bryderon sy'n cael eu codi ynghylch datblygu'r ysbyty newydd hwn, yn enwedig gan y grŵp gwrthwynebwyr lleol.  Fodd bynnag, nid yw Llais wedi gallu ymgysylltu â'r grŵp hwn oherwydd na wnaethant ymateb.

<u>Canolfan Maggie's</u>




Ym mis Rhagfyr 2023, cyfarfu Llais â Chanolfan Maggie's, er mwyn cyflwyno Llais fel y Corff Llais y Dinesydd newydd, ac i ddarganfod a oedd cyfle i gyfranogi ym mheth o'r gwaith y mae Maggie's yn ei wneud i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda chanser.  Mae Maggie's yn sefydliad sy'n cefnogi pobl trwy eu taith canser, ac ar adegau gellir ei defnyddio fel man diogel, gydag arbenigwyr wrth law neu i gwrdd â phobl eraill sy'n mynd trwy brofiadau tebyg.  Yng Nghaerdydd, mae Canolfan Maggie's wedi'i lleoli ar yr un safle â Chanolfan Ganser Felindre, fel ffordd i gleifion a staff gamu i ffwrdd o leoliadau clinigol i amgylchedd cynnes a chyfeillgar.  Yn ystod y cyfarfod cyflwyno cychwynnol, cynigwyd Canolfan Maggie's i Llais fel lleoliad i gynnal digwyddiadau gyda'r nos.  Felly, mae cyfle i Llais gynnal digwyddiad yng Nghanolfan Maggie's, i gyfarfod a gwrando ar brofiadau pobl o fyw gyda chanser, mewn lleoliad cynnes a chyfeillgar.

MACMILLAN CANCER SUPPORT



Ar ôl darllen am y gwaith yr oeddem yn bwriadu ei wneud i gasglu profiadau pobl sy'n byw gyda chanser, cysylltodd cydweithwyr o Macmillan â Llais, a chynhaliwyd cyfarfod i drafod 'Glasgow Improving the Cancer Journey (ICJ) Model', a ddatblygwyd gyda'r gobaith o ddod ag ef i Gaerdydd a Bro Morgannwg.

Esboniwyd trosolwg byr o'r model, y mae wedi'i gynllunio i helpu i wella profiadau pobl â chanser mewn ffordd gyfannol, ac nid dim ond edrych ar yr agwedd glinigol ar ganser. Mae'r model hwn yn gobeithio rhoi blaenoriaeth i roi pobl wrth wraidd eu llwybr gofal, ac ystyried anghenion ehangach y person (a'r teulu).

Clywodd Llais fod y model wedi'i ddatblygu yng Nglasgow ar sail profiad mam a gafodd ddiagnosis terfynol o ganser, ond oherwydd ei bod ar incwm isel ac yn rhiant sengl, bu'n rhaid iddi gysgu ar y llawr yn nhŷ ei mam ei hun. Gadawodd y diagnosis terfynol o ganser, ynghyd â'i sefyllfa bywyd beunyddiol, yr unigolyn heb fawr o urddas. Ond trwy ymyrraeth gan gyfarwyddwyr o fewn yr awdurdod lleol, fe wnaethant lwyddo i ddarparu cymorth a gwell cartref, a oedd yn golygu ei bod yn gallu cael gwell gofal diwedd oes. Er bod yr unigolyn hwn wedi gallu cael y cymorth oedd ei angen yn y pen draw, cododd y cyfarwyddwyr bryderon ynghylch pam yr oedd yn rhaid i'r mater gyrraedd eu lefel nhw o fewn yr Awdurdod Lleol i gael y cymorth hwn, yn hytrach na'i gael yn awtomatig. O ganlyniad, sefydlwyd model ICJ yng Nglasgow, lle mae'r rhai sy'n cael diagnosis o ganser yn cael gweithiwr cyswllt, i gael trafodaethau pellach ynghylch eu hanghenion ehangach.

Dywedwyd wrth Llais fod cydweithwyr Macmillan eisoes wedi gweithio gyda staff o fewn Tîm Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a chytunwyd ar Grant i gwmpasu'r gwaith hwn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg dros y 12 mis nesaf.

Er nad yw'n rhan o gylch gorchwyl Llais i gynghori darparwyr Gofal Iechyd lleol i roi gwasanaeth penodol ar waith, byddem yn croesawu'r cyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn, a gobeithio bod hyn yn rhywbeth y gellir ei gyflwyno yn yr ardal leol.

# ATBORTH AR GYFER ARFER DA

Awgrymiadau o arfer da ar gyfer Canolfan Ganser Felindre;

1. CGF i rannu'r atborth cadarnhaol a dderbyniwyd gyda staff yn y meysydd gwasanaeth perthnasol.

2. Byddai'n ddefnyddiol i gleifion ddeall sut mae Felindre yn cyfathrebu â gwasanaethau gofal iechyd eraill, fel MT neu ysbytai canser eraill.

3. Codwyd pryderon ynghylch diffyg cyfathrebu rhwng cleifion a staff. A fyddech cystal ag egluro sut mae CGF yn sicrhau bod y cyfathrebu rhwng staff a chleifion yn ddibynadwy ac yn gyson.

4. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae CGF yn rhannu atborth gydag YGAC ynghylch pryderon a godwyd am y gwasanaethau cludiant.

5. Byddai'n ddefnyddiol i gleifion wybod pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal ynghylch cael profion gwaed yn eu hardal leol, yn hytrach na gorfod teithio i CGF.

6. CGF i sicrhau bod cyfleusterau bwyd a diod yn gweithio'n briodol, i osgoi staff yn cael eu rhwystro rhag darparu gofal i gleifion.

# DYSGU O'R HYN RYDYM WEDI'I GLYWED

Er ein bod yn falch o'r gwaith rydym wedi'i wneud ynghylch y prosiect hwn, teimlwn fod angen gwneud rhagor o waith yn ychwanegol at yr hyn yr ydym eisoes wedi'i gyflawni.  Rydym yn ymwybodol bod gwasanaethau canser eraill yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, er enghraifft gwasanaethau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.  Felly, rydym wedi penderfynu parhau i edrych ar wasanaethau canser trwy gydol 2024-2025.  Yn ogystal ag edrych ar wasanaethau canser, rydym yn awyddus hefyd i ymgysylltu ag unigolion i ddeall sut brofiad yw byw gyda chanser, a sut mae'n effeithio ar eu bywyd bob dydd;

1. Llais i drefnu ymweliadau â gwasanaethau canser eraill yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg.
2. Llais i ail-ymgysylltu â Maggie's a Macmillan, a'r gwaith y maent wedi'i wneud i gefnogi eu defnyddwyr gwasanaethau.  I achub ar y cyfle i gynnal rhai digwyddiadau man diogel yng Nghanolfan Maggie's a Macmillan, fel y gallwn glywed gan bobl sy'n byw gyda chanser.

Tra byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau allweddol, megis Macmillan, Maggie's a Marie Curie, os oes unrhyw un yn dymuno cysylltu â ni i rannu eu profiadau o fyw gyda chanser, yn awr neu'n flaenorol, mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddfa Llais leol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.



# DIOLCHIADAU

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau am eu gwasanaethau iechyd a gofal, ac i rannu eu syniadau gyda ni.

Rydym yn gobeithio y bydd yr atborth y mae pobl wedi'i rannu gyda ni yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd, i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud, cyn gynted ag y gallant, i wella pethau.

# ATBORTH

Carem glywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

# MANYLION CYSWLLT

LLAIS CAERDYDD A'R FRO,
CANOLFAN FUSNES PROCOPY (CEFN),
PARC TŶ GLAS, LLANISIEN
CAERDYDD,
CF14 5DU.

FFÔN: 02920 750112
E-BOST: CARDIFFANDVALEENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @LLAISCARDIFFANDVALE
TWITTER: LLAIS_WALES